# YSGOL TRYFAN

CEFNOGI, YSBRYDOLI - YN DEULU

# Pecyn Swydd
# Dirprwy Bennaeth




Ysgol Tryfan
Lôn Powys
Bangor
Gwynedd
LL57 2TU

☎ 01248 352 633

swyddfa@tryfan.ysgoliongwynedd.cymru

www.ysgoltryfan.org

Annwyl Ddarpar Ymgeisydd,

**Diolch i chi am eich diddordeb yn swydd Dirprwy Bennaeth Ysgol Tryfan.**

Ysgol uwchradd 11-18 oed yn Ninas Bangor gyda dros 500 o ddisgyblion yw Ysgol Tryfan. Addysgir y mwyafrif helaeth o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy hynny rydym yn ymfalchïo yn y fraint o ddatblygu plant ac oedolion ifanc Bangor a'r cyffiniau yn ddinasyddion cwbl ddwyieithog.

**Ein gweledigaeth**

Mae Ysgol Tryfan yn deulu ac mae holl aelodau'r teulu'n gweithio tuag at yr un amcan sef creu amgylchedd ddiogel a hapus sy'n cefnogi ac yn ysbrydoli.

Rhoddwn bwyslais ar bwysigrwydd pob unigolyn o fewn yr ysgol gan arddel disgwyliadau uchel o ran safonau ac ymdrech. Manteisiwn ar bob cyfle i ddatblygu hunan barch a pharch at eraill, lles personol, hyder a dyfalbarhad gan arfogi ein disgyblion i gyflawni a llwyddo mewn bywyd.

Ceisiwn ddarparu cwricwlwm ysgol sy'n hygyrch, cynhwysol a theg i bawb. Cynigiwn brofiadau cyfoethog mewn ffyrdd hwyliog ac ysbrydoledig gyda chyfleoedd ar gyfer arloesi, creadigrwydd, meddwl yn feirniadol a dysgu o gamgymeriadau. Rhoddwn amodau ac adnoddau i ddysgwyr ddysgu drwy amrywiaeth o ddulliau gan ddatblygu annibyniaeth, sgiliau digidol a'r gallu i weithio'n effeithiol fel tîm.

Ymfalchïwn yn ein cyfraniad i'n bro a'i diwylliant ac i gynaliadwyedd ein byd. Dathlwn ein Cymreictod a'n gallu i ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus, dwyieithog hyderus.

**Ein dyheadau ar gyfer ein dysgwyr**

Rydym yn awyddus iawn i gwricwlwm ein disgyblion gynnig profiadau sy'n caniatau iddynt:

- ddysgu am eu hardal leol, Cymru a'r byd
- ddysgu am gynaliadwyedd y blaned a'r hyn y gallent ei wneud i'w gwarchod
- ddysgu mewn cyd-destunau real a 'bywyd go iawn'
- gael mwy o ymwybyddiaeth o fyd gwaith, y byd digidol a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo
- ymgysylltu gyda siaradwyr gwadd a mwynhau ymweliadau addysgol i gefnogi'r dysgu
- ddatblygu eu hiechyd, ffitrwydd a'u lles personol gan gynnwys delio gydag emosiynau a chyflyrau gwahanol

**Cyfle**

Mae'r corff llywodraethol yn chwilio am arweinydd arloesol, cynhwysol a theg sydd â'r gallu a'r dycnwch i gydarwain yn gadarn ac i ysbrydoli. Disgwylir i bob aelod o'r uwch dîm rheoli arwain yr ysgol at ragoriaeth ym mhob agwedd o'r ddarpariaeth. Rydym yn ymfalchïo fod safonau academaidd yn Ysgol Tryfan yn gadarn dros gyfnod, ac hefyd mae'r gefnogaeth a gaiff ein disgyblion yn flaenoriaeth ac yn hollbwysig i ni. Nododd Estyn mewn arolwg diweddar fod y "disgyblion yn ffynnu o fewn awyrgylch gefnogol a Chymreig". Gallwch ddarllen mwy yma.

Fel y gwelwch mae llawer o gryfderau i'r ysgol, ac mae criw o staff gennym sydd yn uchelgeisiol ynghylch ein dyheadau ar gyfer ein disgyblion. Rydym yn gweithio'n galed i wireddu ein cynlluniau a chreu diwylliant o welliant parhaus er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth gorau posibl. Drwy weithio fel un

YSGOL TRYFAN
CEFNOGI, YSBRYDOLI - YN DEULU

tîm, neu un teulu, gallwn edrych ymlaen yn hyderus tuag wneud y mwyaf o'r cyfleon a ddaw yn sgîl diwygio'r cwricwlwm.

Fe welwch o gael golwg ar ein gwefannau cymdeithasol fod Ysgol Tryfan yn ysgol brysur. Mae darparu ystod o gyfleoedd cyfoethog tu fewn a thu allan i'r ystafelloedd dosbarth yn bwysig i ni.

Diolch i chi unwaith eto am eich diddordeb yn y swydd. Os ydych yn awyddus i ymuno gyda ni bydd angen cyflwyno cais erbyn 10.00yb, Dydd Llun, Hydref 7fed. Rhagwelir cynnal y cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn cychwyn y 14eg o Hydref.

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich cais ar gyfer y swydd allweddol ac arbennig hon.

Yn gywir,

Dr Geraint Owen Jones
Pennaeth

Mr Carl Mather
Cadeirydd y Llywodraethwyr

YSGOL TRYFAN
CEFNOGI, YSBRYDOLI - YN DEULU

# Swydd Ddisgrifiad
# Dirprwy Bennaeth

| | |
|---|---|
| **Rheolwr Cyswllt:** | Pennaeth |
| **Pwynt cyflog:** | L13 – L17 (£64,450- £71,195) yn ôl profiad a chymhwyster. |
| **Dyddiad Cychwyn:** | Ionawr 1af, 2025 |
| **Amserlen addysgu:** | Yn ddibynnol ar nifer a natur y cyfrifoldebau penodol |

## Cyfrifoldebau fel rhan o'r Uwch Dîm Rheoli

- Cynorthwyo'r Pennaeth i arwain a rheoli'r ysgol yn llwyddiannus
- Cefnogi'r Pennaeth i sicrhau gwelliant parhaus a llwyddiant i'r ysgol
- Cynorthwyo'r Pennaeth i rannu, a chyfleu gweledigaeth ysgol a'r cyfeiriad strategol
- Cefnogi'r Pennaeth i greu amgylchedd gynhwysol a theg sydd yn sicrhau llesiant a ffyniant pob disgybl
- Ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc
- Cyfrannu'n llawn i drafodaethau UDA ac i strategaethau a blaenoriaethau datblygol yr ysgol
- Datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, arferion a gweithdrefnau'r ysgol yn rheolaidd
- Gweithredu fel aelod cyswllt adrannau/rheolwyr canol
- Cadw'n gyfredol gyda datblygiadau diweddaraf yn lleol a chenedlaethol a pherthnasu hynny i anghenion yr ysgol
- Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol parhaus
- Dangos ymrwymiad i addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ac i lwyddiant Ysgol Tryfan yn gyffredinol
- Ymgymryd â thasgau rheoli, trefnu a gweinyddu rhesymol
- Cyfrannu i gyfarfodydd Llywodraethwyr gan gymryd rôl weithredol mewn cyfarfodydd is-bwyllgorau
- Llunio a/neu gyfrannu at adroddiadau yn ôl yr angen
- Cynorthwyo i hyrwyddo perthnasoedd gwaith cytûn yn yr ysgol a chynnal perthnasoedd gyda rhanddeiliaid
- Bod yn rhan o drafodaethau cyllidol sy'n sicrhau bod yr ysgol yn cynnig gwerth am yr arian cyhoeddus mae'n ei wario er mwyn cynnal a gwella ansawdd yr addysg a ddarperir
- Addysgu'n effeithiol yn unol â Swydd Ddisgrifiad Athro/Athrawes.

**Cyfrifoldebau Penodol**

(**I'w gadarnhau** – gellid bod yn hyblyg gyda rhai o'r cyfrifoldebau isod yn dibynnol ar sgiliau, profiad ac arbenigeddau'r ymgeisydd lwyddiannus)

- Adnabod meysydd datblygu a llunio cynlluniau datblygu
- Trefniadau Asesu, Cofnodi ac Adrodd – ac arwain at ymyrraethau/dilyniant yn dilyn asesiadau
- Gosod targedau a thracio cynnydd (CiG, CA4 a CA5)
- Trosolwg arholiadau – mewnol ac allanol
- Arwain ar Strwythur Cwricwlaidd yr ysgol
- Amserlen traws-ysgol, amserlenni adolygu a dewisiadau CA4 a CA5
- Partneriaethau 14-19
- Strategaeth Mwy Abl a Thalentog, Holiaduron,  SEREN
- Prosesau Sicrhau Ansawdd a chydymffurfiaeth trawsysgol
- Adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol i'r Llywodraethwyr
- Dadansoddiadau/Adroddiadau data a rheoli data
- Trosolwg/Cefnogi CA4 – Cynnydd, Cyrhaeddiad, trefn mentora
- Trosolwg Gyrfaoedd ac Addysg Byd Gwaith
- Trosolwg o hyrwyddo gweithgareddau STEM
- Cefnogi trefn hunan-arfarnu'r ysgol drwy holi disgyblion, craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a theithiau dysgu
- Arwain ar fentora a chymorth i ddisgyblion gan sicrhau ein bod yn gwneud defnydd mwyaf effeithlon o'n gweithlu
- Arwain ar ddatblygu ymhellach a chysoni rôl y rheolwyr canol yn yr ysgol
- Arwain ar ddatblygu atebolrwydd ac arweinyddiaeth ddosranedig mewn ysgol
- Arweinydd llinell rhai adrannau/MDaPh
- Ar y cyd gyda'r Pennaeth arwain ar waith partneriaethol/cynghrair

**Amodau**
Mae gofynion y swydd hon i'w cyflawni yn unol â darpariaethau Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac o fewn amrediad dyletswyddau athrawon fel a nodir yn y ddogfen honno. Mae'r swydd hefyd yn darostyngedig i Amodau Gwaith Athrawon Ysgol yng Nghymru a Lloegr (Y Llyfr Bwrgwyn) ac i unrhyw amodau perthnasol a gytunwyd yn lleol.

Rhaid i ddyletswyddau proffesiynol Dirprwy Bennaeth gael eu cyflawni yn unol â'r darpariaethau'r Deddfau Addysg, Gorchmynion a Rheoliadau sy'n weithredol dan y Deddfau Addysg, offeryn llywodraethu'r ysgol, unrhyw ddogfen ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i'r ysgol ac unrhyw gynllun sy'n cael ei baratoi neu ei gynnal gan Yr Awdurdod Lleol dan Adran 48 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(87).

Gweithredir 'Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth'. Dylid hybu ac arwain nodweddion, gwerthoedd a dealltwriaeth broffesiynol, cynllunio gwaith yn hyderus gan osod targedau i'w monitro a'u hasesu wrth gynnal amgylcheddau dysgu effeithiol, lle mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel a hyderus.

Mae'r dyletswyddau hyn i'w cyflawni yn ôl cyfarwyddyd rhesymol y Pennaeth o bryd i'w gilydd fel y bo'n briodol. Mae'r Dirprwy Bennaeth yn atebol i'r Corff Llywodraethol a Phennaeth yr Ysgol. Disgwylir i'r Dirprwy Bennaeth fod yn gyfrifol am yr ysgol yn absenoldeb y Pennaeth.

**Sut i ymgeisio**:
Mae croeso i chi drafod y swydd yn anffurfiol gyda'r Pennaeth drwy gysylltu â ni ar 01248 352633

Gwahoddir ceisiadau drwy anfon ffurflen gais a llythyr cais, i sylw Bethan Thomas, Rheolwr Busnes a Chyllid, sg@tryfan.ysgoliongwynedd.cymru, neu ar-lein ar wefan Cyngor Gwynedd.

**Dyddiad Cau:**
10.00yb, Dydd Llun, Hydref 7fed.

**Dyddiad Cyfweld:**
Wythnos yn cychwyn y 14eg o Hydref

## Manyleb Person:

| Nodweddion Personol a sgiliau | Hanfodol | Dymunol | Tystiolaeth |
|---|---|---|---|
| Ymroddiad llwyr i roi'r profiadau gorau i ddisgyblion - eu dysgu, eu lles, a'u diogelwch | * | | |
| Yn gallu cyd-weithio mewn tîm | * | | |
| Brwdfrydedd, dyfalbarhad a dycnwch | * | | Llythyr cais |
| Yn onest, dibynadwy, ac yn parchu cyfrinachedd | * | | |
| Blaengar ac arloesol | * | | |
| Disgwyliadau uchel ohonoch chi eich hun ac eraill | * | | |
| Gallu blaenoriaethu'n effeithiol | * | | Ffurflen gais |
| Hyblygrwydd | * | | |
| Parodrwydd i chwarae rhan flaenllaw ym mywyd ehangach cymuned yr ysgol | * | | |
| Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol | * | | Tystlythyrau |
| Yn frwdfrydig dros addysg ddwyieithog/Gymraeg | * | | |
| Yn gallu gwneud a chyfiawnhau penderfyniadau anodd a rheoli'r broses o newid yn effeithiol | * | | |
| Cyfathrebu yn rhwydd, yn effeithiol ac yn gywir, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg | * | | Cyfweliad |
| Yn meddu ar fedrau rhyngbersonol gwych | * | | |
| Synnwyr digrifwch! | * | | |
| Sgiliau TG ardderchog | * | | Tasgau cyfweliad |
| Sgiliau dadansoddi data ac adnabod tueddiadau/patrymau gan lunio cynllun/prosesau gweithredu fel dilyniant | * | | |
| Sgiliau addysgu effeithiol iawn | * | | |
| Sgiliau arwain datblygedig, gyda'r gallu i ennyn brwdfrydedd, ysbrydoli ac ysgogi eraill | * | | Cyfweliad proffesiynol |
| Sgiliau cyfathrebu ardderchog | * | | |
| Gallu i weithio dan bwysau i derfynau amser | * | | |
| Gallu i reoi'r ysgol yn absenoldeb y Pennaeth | * | | |
| Gallu i gefnogi a herio staff eraill | * | | |
| **Cymwysterau** | | | |
| Gradd anrhydedd | * | | Llythyr cais |
| Statws athro cymwysiedig | * | | |
| Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus | * | | Ffurflen gais |
| CPCP a/neu radd uwch | | * | |
| **Profiad a dealltwriaeth** | | | |
| Profiad o arwain agweddau traws ysgol yn llwyddiannus | * | | Llythyr cais |
| Profiad o wella cyflawniad disgyblion | * | | |
| Profiad o arwain adran/maes neu fel Pennaeth Blwyddyn | * | | Ffurflen gais |
| Profiad o fod yn arwain yn effeithiol ar lefel tîm rheoli | | * | |
| Profiad o arwain a chefnogi athrawon | * | | Tystlythyrau |
| Profiad o arwain sesiynau hyfforddiant | | * | |
| Profiad llwyddiannus o arwain a rheoli newid | | * | Cyfweliad |
| Profiad o weithio'n effeithiol gyda AALl, GwE, Estyn | | * | |
| Dealltwriaeth o'r system addysg yng Nghymru a pholisïau Llywodraeth Cymru | * | | Tasgau cyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dealltwriaeth ardderchog o flaenoriaethau addysg cenedlaethol a lleol | * | | Cyfweliad proffesiynol |
| Dealltwriaeth ardderchog o strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a gwella cyflawniad disgyblion | * | | |
| Dealltwriaeth ardderchog o ddatblygu’r cwricwlwm ac asesu | | * | |